**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
seneddCCGG@senedd.cymru

17 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf a'r adroddiad cysylltiedig. Mae defnyddio gwasanaethau digidol ledled Cymru yn allweddol i sicrhau bod pob gwasanaeth iechyd yn gweithredu'n effeithiol, felly rwy'n croesawu adroddiad y ddau bwyllgor ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn dilyn blwyddyn gyntaf yr Awdurdod Iechyd Arbennig hwn. Yn benodol, mae'n dda gweld bod argymhellion y ddau bwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, a'r rhai y gwn eu bod ar waith gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Hoffwn hefyd dynnu sylw'r ddau bwyllgor at fy Natganiad Ysgrifenedig[1] ar 27 Gorffennaf 2023, pan lansiais fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn rhoi cyfeiriad trawsnewid digidol a data i helpu pobl yng Nghymru i fyw bywydau hapusach, iachach a hirach trwy wasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ac sy'n seiliedig ar sgiliau, partneriaethau, data a phlatfformau digidol gwell. Fel ein partner darpariaeth ddigidol dibynadwy a strategol, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cyfraniad hanfodol at helpu Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i wireddu'r dyheadau a nodir yn y Strategaeth. Trwy weithredu'r argymhellion hyn yn llwyddiannus, bydd modd cryfhau'r swyddogaeth hon a chryfhau atebolrwydd i bawb.

Cyflwynir fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad, fel y bo'n briodol, yn Atodiad A.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

[1] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-fersiwn-ddiwygiedig-or-strategaeth-digidol-data-ar-gyfer-iechyd-gofal

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, o'r enw "Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru".**

---

## Argymhelliad 1

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau wrth bennu blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:*

- *Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.*
- *Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys pryd a chan bwy.*
- *Sut mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.*
- *Pa rôl, os o gwbl, fydd gan Weithrediaeth GIG Cymru*.

**Ymateb:**

A. Ers i'r ddau Bwyllgor dderbyn tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Mike Emery yn Gyfarwyddwr Technoleg, Digidol ac Arloesi ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a hynny fis Ionawr 2023. Mike hefyd yw Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol GIG Cymru. Mae'r Prif Swyddog Digidol yn cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru bob pythefnos i drafod a phenderfynu ar flaenoriaethau cyflawni, gan gynnwys unrhyw heriau, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/GIG Cymru. Fel arfer, mae'r blaenoriaethau hyn yn deillio o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a blaenoriaethau ychwanegol sy'n ymateb i anghenion penodol. Hefyd, fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am y broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig flynyddol[1] ac mae'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig chwarterol a chyfarfodydd chwe misol y Cyd-dîm Gweithredol. Yn unigol ac ar y cyd, mae'r sgyrsiau hyn yn ystyried, yn trafod, yn herio, yn arfarnu, yn penderfynu ac yn datrys pob pwynt yn ymwneud â blaenoriaethau cyflawni Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau cysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

B. O fewn Gweithrediaeth y GIG, bydd Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yn gyfrifol am oruchwylio datblygiadau digidol, cydgysylltu a diffinio safonau technegol, a

---

[1] Holl gyrff y GIG yn creu cynlluniau bob blwyddyn yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru

sicrhau bod dulliau system gyfan yn cael eu mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod systemau Unwaith i Gymru, h.y. systemau cenedlaethol, yn cael eu gweithredu, eu gwella'n gyson, a'u mabwysiadu ledled Cymru.

C. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Portffolio a Buddsoddi Strategol Cenedlaethol arfaethedig (a leolir yng Ngweithrediaeth y GIG). Bydd y fforwm hwn y ndwyn ynghyd gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y GIG a Gofal Cymdeithasol i nodi, ystyried a chynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Weinidogion. Rôl y Bwrdd fydd:

   a. Adolygu a chraffu, ac argymell i Lywodraeth Cymru (ac felly i Weinidogion) a Gweithrediaeth y GIG fuddsoddiadau digidol a data sy'n ymwneud â mentrau priodol ar draws y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
   b. Gweithredu fel pwynt adolygu Gateway ar gyfer rhaglenni a phrosiectau allweddol, sy'n cyd-fynd â phroses Gateway Llywodraeth Cymru;
   c. Darparu trosolwg o seilwaith a saernïaeth technoleg ddigidol a data Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
   d. Ymgymryd â chomisiynu partneriaid cyflawni gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
   e. Darparu trosolwg o ddata, caffael, rhyngweithredededd, a llywodraethiant safonau deallusrwydd artiffisial, ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Argymhelliad 2**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am Uwch-swyddogion Cyfrifol y rhaglen. Os yw Prif Weithredwr interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau fel Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu asesiad i weld a yw'n realistig i un unigolyn ymgymryd â'r ddwy rôl ar yr un pryd, a gwybodaeth am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rolau'n cael eu cyflawni ar yr un pryd.*

**Ymateb:**

Adeg y sylwadau hyn, mae'r Uwch-swyddogion Cyfrifol ar y cyd (Prif Weithredwr dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn parhau i fod yn atebol am gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn unol â threfniadau llywodraethiant diwygiedig ar gyfer pob prosiect Trawsnewid Digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel y trafodwyd ac y cytunwyd gennyf i, Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'm swyddogion, disgwylir y bydd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ymhlith y rhaglenni cyntaf i newid i'r trefniadau hyn, sy'n golygu y bydd Prif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn atebol am gyflawni WCCIS.

**Argymhelliad 3**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, y gwariant sydd wedi'i gynllunio, y defnydd o WCCIS ymhlith byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ymgysylltiad neu ymgynghoriad â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn.*

**Ymateb:**
Ar ôl y toriad, byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgorau am y cyfeiriad strategol ar gyfer WCCIS. Bydd y dull cyffredinol o fynd ati yn y dyfodol, fel y nodir yn y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn canolbwyntio ar rannu data'n well rhwng lleoliadau, a alluogir gan y ffaith y bydd systemau/ gwasanaethau yn cyd-fynd yn well yn sgil datblygiadau mewn cofnodion gofal a rennir ar draws y GIG a Gofal Cymdeithasol. O safbwynt cyllidebau y cytunwyd arnynt, nid oes unrhyw newid wedi bod hyd yma o'r sefyllfa gyffredinol a nodwyd yn llythyr Archwilio Cymru (Gorffennaf 2022) i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

**Argymhelliad 4**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Yn eu hymatebion i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad ar ganlyniad adolygiad o strategaeth gontractio System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a oedd i adrodd erbyn mis Mawrth 2023.*

**Ymateb:**

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o'r strategaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r adolygiad a fydd yn sicrhau bod y rhaglen yn gallu manteisio ar gysylltiadau masnachol yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn gwireddu ei huchelgais i ddefnyddio data iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni a gweithredu datrysiad digidol yn llwyddiannus, i alluogi ymhellach y nod o sicrhau gwasanaethau integredig ar draws iechyd a gofal.

**Argymhelliad 9**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Erbyn diwedd 2023 dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyhoeddi cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynyddu ei ymgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Dylid datblygu'r*

*cynllun drwy ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol, a dylai gynnwys amserlenni clir ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei gyflawni. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu copi o'r cynllun i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a darparu diweddariad chwe misol ar gynnydd yn erbyn y cynllun.*

**Ymateb:**
Mae Prif Swyddog Gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a benodwyd yn ddiweddar, a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydweithio i sicrhau bod blaenoriaethau polisi Gofal Cymdeithasol yn cael eu cefnogi o fewn y blaenoriaethau digidol presennol. Yn allweddol i gyflawni hyn bydd ymgysylltiad tebyg rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r sector Gofal Cymdeithasol.

**Argymhelliad 13**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau o ran darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad ar gyfer trawsnewid digidol ym maes iechyd. Dylai hyn gynnwys:*

- *Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod penderfyniadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrff iechyd eraill yng Nghymru ar flaenoriaethu cyllid cyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion.*
- *Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru'n gweithio gyda chyrff iechyd ac yn eu hannog i ddyrannu cyllid digonol ac adnoddau eraill i gyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy.*

**Ymateb:**
Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (cyllid refeniw a chyfalaf) o ddwy brif ffynhonnell: dyraniad craidd (sy'n seiliedig ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac yn cael ei fonitro drwy'r cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig cysylltiedig a chyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol) a'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (ar gyfer gweithgareddau trawsnewid digidol strategol wedi'u targedu). Ar gyfer yr olaf, rhaid cyflwyno cynigion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru a dangos cysondeb â nodau polisi blaenoriaeth, aliniad strategol, meysydd blaenoriaeth Gweinidogol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Caiff y rhain eu hystyried gan banel o swyddogion Llywodraeth Cymru (bydd cynrychiolydd o'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn darparu cyngor ar arferion gorau ac ati) cyn bod cyngor yn cael ei roi i'r Gweinidog ar ymrwymo i ddarparu cyllid (refeniw a chyfalaf) ar gyfer rhaglenni trawsnewid digidol penodol. Mae'r prosesau llywodraethiant gwell ar gyfer trafod, cytuno a monitro sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio cyllid

Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion ar waith wedi'u hamlinellu yn Argymhelliad 1, B.

**Argymhelliad 14**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu arfarniad gonest o effaith argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyflawni trawsnewid digidol mewn gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosiectau neu raglenni sydd wedi cael eu gohirio, neu sy'n debygol o gael eu gohirio oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, asesiad o oblygiadau oedi o'r fath, a pha ddulliau amgen sy'n cael eu hystyried i ariannu/cefnogi twf yn y gofod digidol.*

**Ymateb:**
Mae gwasanaethau digidol yn dibynnu llai ar gyllid cyfalaf wrth iddynt newid yn raddol i wasanaethau cwmwl, sy'n gofyn am ymrwymiad refeniw parhaus. Mae angen cyllid cyfalaf o hyd fel sylfaen i seilwaith ffisegol (e.e. caledwedd y rhwydwaith, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron ac ati).

Oherwydd setliadau cyllidebol hanesyddol gan San Steffan a blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, mae'r ddyled dechnegol yn cynyddu yn y GIG yng Nghymru, wedi'i hachosi gan ddiffyg cyllid ar gyfer disodli seilwaith sylfaenol etifeddol, sy'n golygu risg seiber i GIG Cymru. Byddai mynd i'r afael â'r ddyled dechnegol hon yn gofyn am fuddsoddiadau sylweddol o ran cyllid ac arbenigedd. Mae'r pwysau cyfalaf hwn ar gyllidebau Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, nid cyllidebau rhaglenni trawsnewid digidol, felly byddai gofyn cael ymrwymiadau refeniw parhaus ychwanegol i ariannu mwy o wasanaethau cwmwl i ddisodli rhai o'r gwasanaethau a gynhelir ar safleoedd ar hyn o bryd.

Mae'n anodd mesur effaith diffyg cyfalaf ar brosiectau neu raglenni trawsnewid digidol yn y modd a ddisgrifiwyd yn yr argymhelliad. Fel y mae'r Pwyllgorau yn ei wybod, mae angen gwneud penderfyniadau cyllidebol heriol gan roi blaenoriaeth i gyllid cyfalaf er mwyn cynnal gwasanaethau rheng flaen. Mae hyn yn golygu bod angen i raglenni ystyried yn ofalus y cyllid maent yn gofyn amdano, gan gynnwys archwilio dulliau cyflenwi amgen – er enghraifft, gweithio gyda chyrff eraill i sicrhau trawsnewid digidol ar y cyd. Gwneir hyn cyn cyflwyno cais am arian, felly nid yw'n hawdd meintioli sut mae'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael yn effeithio ar drawsnewid digidol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod o ran dyled dechnegol, mae hyn golygu gosod gwasanaethau digidol modern ar ben systemau TG sy'n heneiddio'n gynyddol (ee rhwydweithiau strwythurol a chaledwedd ac ati), a fydd ond yn gallu ymdopi â rhywfaint o newid technegol cyn iddynt hwy eu hunain ddod yn rhwystr i drawsnewid.

**Argymhelliad 16**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Rydym yn awyddus i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru'n hygyrch mewn modd priodol i gleifion yng Nghymru pan maent yn derbyn gwasanaethau'r GIG yn Lloegr. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru a Lloegr alinio a chysylltu'n well.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n llwyddiannus gydag NHS England ar lefel Weinidogol a Swyddogion, ac mae'r ddwy ochr wedi dysgu gwersi o ddulliau gweithredu hyd yma. Mae Cymru'n aelod gweithgar o grŵp Iechyd y Pedair Gwlad, gan gynnwys gwaith ar safonau data cyffredin. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i arwain y trafodaethau hyn gyda chymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn arwain gwaith o dan raglen Llwybrau Trawsffiniol Powys, gyda chymorth gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyfnewid data iechyd gydag Ymddiriedolaethau GIG Lloegr a Systemau Gofal Integredig ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal trawsffiniol yng Nghymru a Lloegr. Mae gwaith trawsffiniol o'r fath yn arwain at brofiad symlach i gleifion, llai o oedi (wrth aros am ffeiliau) a phenderfyniadau clinigol gwell gan GIG Lloegr ar gyfer cleifion o Gymru. Galluogir hyn drwy fynediad gwell a llawnach at ddata Cymru, a fydd yn cynnwys gwaith pellach ar ystyried a mabwysiadu safonau rhyngwladol mewn perthynas â rhannu data rhwng gwledydd.

Yng Nghymru, y dull gweithredu a nodir yn ein Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (fel y nodir ar dudalen 1) yw cynyddu'r defnydd o systemau Unwaith i Gymru, mabwysiadu safonau a fframweithiau saernïaeth agored wedi'u cymhwyso'n gyson i wella'r gallu i ryngweithredu, a defnyddio platfformau presennol i symleiddio mynediad at ddata gan glinigwyr a staff cymorth. Mae gennym gofnod cleifion sengl ar gyfer gofal eilaidd. Yn y sector gofal sylfaenol, rydym yn defnyddio dau gyflenwr systemau ledled Cymru i ddarparu cofnodion electronig meddygon teulu, ac ar gyfer fferyllfeydd cymunedol mae gennym system Dewis Fferyllfa Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae gan ddarparwyr gofal iechyd yn Lloegr strategaethau ar wahân ar gyfer integreiddio gwybodaeth cleifion ar gyfer amgylchiadau lle mae'r claf yn symud y tu allan i ardal ddaearyddol ei ddarparwr gofal yn Lloegr. Mae hyn yn golygu y byddai angen i wasanaethau a systemau Cymru integreiddio ar wahân â phob darparwr a system iechyd yn Lloegr, gan arwain at heriau technegol sylweddol iawn sydd angen buddsoddiad mawr gan y ddwy Lywodraeth.

Yn 2022, cyhoeddodd[2] NHS England fuddsoddiad mawr i helpu i sicrhau bod cofnodion electronig cleifion ar gael ym mhob ymddiriedolaeth GIG. Mae geiriad y datganiad yn awgrymu bod hyn yn ymwneud â rhannu data rhwng lleoliadau o fewn pob System Gofal Integredig, yn hytrach na rhwng ardaloedd o Loegr neu Lywodraethau datganoledig o bosibl; mae swyddogion yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda GIG Lloegr i ddeall sut

[2] https://www.gov.uk/government/publications/a-plan-for-digital-health-and-social-care/a-plan-for-digital-health-and-social-care#section-1-embedding-digital-technologies

rydym yn archwilio cyfleoedd posibl i rannu platfformau digidol, ond gan gadw sofraniaeth data i Gymru, er budd dinasyddion Cymru.